**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU** |
| **SUBJECT:** | **PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU - DYDD IAU, 3 MAWRTH 2022 DYDD IAU, 3 MAWRTH 2022** |
| **REPORT OF:** | **SWYDDOG CYMORTH DEMOCRATAIDD A PHWYLLGORAU** |

---

PRESENT: D. HANCOCK (CADEIRYDD)

Cynghorwyr W. Hodgins (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. L. Davies
J. Hill
C. Meredith
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Thomas
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

GYDA: Rheolwr Tîm - Rheoli Datblygu
Arweinydd Tîm – Rheoli Datblygu
Rheolwr Tîm – Amgylchedd Adeiledig
Swyddog Cynllunio
Cyfreithiwr

A: **Siaradwyr Cyhoeddus**

Cais Rhif C/2021/0372
154 Gainsborough Road, Cefn Golau, Tredegar
Cynghorydd H. Trollope, Aelod Ward

C/2021/0386
Tir ym mhen deheuol Rhodfa Calch,
Glynebwy NP23 6GL
Mr. J. Hurley, Cyfarwyddwr, Asbri Planning Cyf.

**PENDERFYNIADAU DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb gan:<br><br>Cynghorydd M. Day<br>Cynghorydd G. Thomas | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Gwnaed y datganiad dilynol o fuddiant:-<br><br>Cynghorydd D. Bevan<br>Eitem Rhif 5 - C/2021/0253<br>Premier Club, Stryd William, Cwm, Glynebwy<br><br>Cynghorydd J. Hill<br>Eitem Rhif 5 - C/2021/0253<br>Premier Club, Stryd William, Cwm, Glynebwy<br><br>D Hancock<br>Eitem Rhif 5 - C/2021/0253<br>Premier Club, Stryd William, Cwm, Glynebwy<br><br>Cynghorydd G. Davies<br>Eitem Rhif 5 - C/2021/0253 | |

| | | |
|---|---|---|
| | Premier Club, Stryd William, Cwm, Glynebwy<br><br>Cadarnhaodd yr Aelodau na fyddent yn cymryd rhan yn y broses bleidleisio. | |
| **No. 4** | **ADRODDIAD CEISIADAU CYNLLUNIO**<br><br>C/2021/0372<br>154 Heol Gainsborough, Cefn Golau, Tredegar NP22 3TL<br>Cynnig am Sied<br><br>Hysbysodd y Swyddog Cynllunio y Pwyllgor yr amlygwyd yr ardal anghywir yn yr adroddiad. Wedyn cyflwynwyd yr ardal gywir i Aelodau drwy Google Streetmaps.<br><br>Dywedodd y Swyddog Cynllunio fod y cais yn gofyn am ganiatâd ar gyfer codi sied ar ochr 154 Heol Gainsborough, Tredegar. Roedd yr adeilad yn un o dai pâr yn wynebu Heol Gainsborough. Roedd y tŷ wedi ei osod ar ongl i'r ffordd gyda gardd o amgylch tair ochr y tŷ. Dywedodd y Swyddog Cynllunio y byddai'r sied a gynigir yn cael ei rhoi yn yr ardd ochr. Roedd cyfluniad yr ardd yn golygu ei bod yn cyfeirio tuag at ffin blaen yr ardd.<br><br>Rhoddodd y Swyddog Cynllunio fanylion y sied a gynigir gyda chymorth diagramau fel y manylir yn yr adroddiad.<br><br>Dywedwyd ymhellach na chafwyd unrhyw ymateb o'r ymgynghoriad allanol na'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd. Nododd y Swyddog Cynllunio yn dilyn hysbysu Aelodau'r Ward am y bwriad i wrthod y cais dan bwerau dirprwyedig y cafodd dwy neges e-bost eu derbyn yn gofyn i'r cais gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio. Teimlai'r Aelodau Ward nad oeddent yn ystyried bod y cynnig yn amlwg gan y byddai ymaith o'r briffordd ac roedd yn llawer is na'i gymdogion agosaf nad oedd wedi gwneud unrhyw wrthwynebiad.<br><br>Amlinellodd y Swyddog Cynllunio y cais ymhellach a soniodd am y polisïau a ystyriwyd wrth benderfynu'r cais. Mae'r adeilad o fewn ardal breswyl ac ystyriwyd y byddai sied o fewn y libart yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | gydnaws gyda'r defnyddiau o amgylch yn yr ardal fel sy'n ofynnol gan y polisi. Mae polisi'r cyngor yn nodi na ddylai garejys ac adeiladau allanol fod tu flaen i linell flaen yr adeilad os nad ydynt yn nodwedd o olwg y stryd ac er y derbyniwyd fod y cynnig yn syrthio tu ôl i linell adeilad blaen y tŷ, roedd gosodiad y safle yn golygu fod y sied yn ymestyn tuag at y terfyn blaen.<br><br>Nododd y Swyddog Cynllunio y byddai cornel gogledd ddwyreiniol y sied yn amlwg iawn o'r stryd ac ar y pwynt hwn byddai'r sied a gynigir yn 3m o uchder. Cydnabuwyd y byddai wal yr ardd yn rhannol guddio'r sied, fodd bynnag byddai'n dal i fod tua 0.5m yn uwch na lefel y wal sydd ar flaen y safle. Felly teimlai'r Swyddog Cynllunio fod y sied a gynigir yn groes i bolisi. Teimlai'r Swyddog Cynllunio hefyd y byddai defnyddio cladin pren a llenni to tun yn annerbyniol yn y lleoliad hwn. Nid oedd yr Ymgeisydd wedi gofyn am unrhyw ddiwygiadau i'r elfennau hyn o gofio am y pryderon. Dywedodd y Swyddog Cynllunio fod garej sengl wedi arfer bod ar flaen y tŷ, fodd bynnag mae lluniau o'r awyr yn awgrymu y cafodd hyn ei symud cyn 2014 a dywedodd y dylai'r sied arfaethedig gael ei hystyried o'i rhan ei hun yn hytrach na strwythur yn lle.<br><br>I gloi, cyfeiriodd y Swyddog Cynllunio at argymhelliad y swyddog y dylid gwrthod y cais gan y byddai datblygiad yn achosi niwed sylweddol i olwg y stryd a chymeriad yr ardal yn groes i Bolisi DM1(2) y Cynllun Datblygu Lleol a'r egwyddorion allweddol a nodir yn Nodyn 2 Canllawiau Cynllunio Atodol Deiliaid Tai.<br><br>Anerchodd yr Aelod Ward, y Cynghorydd H. Trollope, y Pwyllgor ar wahoddiad y Cadeirydd.<br><br>Teimlai'r Cynghorydd Trollope nad oedd y ffotograffau yn rhoi darlun clir o'r safle ac nad oedd unrhyw amhariad ar y safle yn ei farn ef. Roedd yr Ymgeisydd wedi gwneud popeth a fedrai i gydymffurfio â chynlluniau polisi a chytunodd y Cynghorydd Trollope y bu adeilad ar yr ardal yn flaenorol. Nid oedd cymdogion wedi gwneud unrhyw wrthwynebiad a theimlai'r Aelod Ward mai'r rheswm am hynny oedd yr adeilad a fu ar y safle mewn blynyddoedd blaenorol. | |

Dywedodd y Cynghorydd Trollope na fedrai ddeall pam yr argymhellwyd gwrthod y cais a gofynnodd i'r Pwyllgor edrych ar synnwyr ar cyffredin o ran tafluniad 0.5m a chymeradwyo'r datblygiad arfaethedig.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau/sylwadau gan y Pwyllgor ar y pwynt hwn.

Cytunodd Aelod Ward arall gyda'r sylwadau a wnaed gan ei gydaelod ward a chredai na fyddai'r datblygiad yn effeithio ar gymdogion. Ychwanegodd yr Aelod Ward na fu unrhyw wrthwynebiad gan gymdogion a chyfeiriodd at y garej a fu ar y safle yn flaenorol. Awgrymodd yr Aelod Ward, pe byddai Aelodau yn ystyried gwrthod y cais, y dylid trefnu ymweliad safle er mwyn i'r Pwyllgor weld yr effaith weledol ar olwg y stryd.

Nododd Aelod y sylwadau a godwyd gan Aelodau Ward a diffyg gwrthwynebiadau gan gymdogion, fodd bynnag teimlai'r Aelod y gellid addasu'r datblygiad i ddarparu ar gyfer sied lai. Felly cynigiodd Aelod argymhelliad y swyddog. Ni chafodd y cynnig hwn ei eilio.

Dilynodd trafodaethau pellach yng nghyswllt y cais a chytunodd Aelodau gyda sylwadau yr Aelodau Ward.

Gofynnodd y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu pe byddai'r Pwyllgor yn ystyried cymeradwyo'r cais y dylid rhoi pwerau dirprwyedig i swyddogion i osod amod am y deunyddiau a ddefnyddid. Teimlai'r Rheolwr Tîm y byddai cadw rheolaeth dros y deunyddiau yn sicrhau bod y sied yn gydnaws gyda'r ardal o amgylch.

Cynigiodd Aelod gymeradwyo'r cais gan roi pwerau dirprwyedig i swyddogion i reoli'r deunyddiau a'u gorffenion ar y sied arfaethedig. Cafodd y cynnig ei eilio.

Mewn pleidlais a gynhaliwyd, pleidleisiodd 11 Aelod o blaid y cynnig a phleidleisiodd 1 Aelod o blaid argymhelliad y swyddog. Wedyn,

PENDERFYNWYD **CYMERADWYO** caniatâd cynllunio.

Ni chymerodd y Cadeirydd ran yn y bleidlais.

C/2021/0386
Tir ym mhen deheuol Rhodfa Calch, Glynebwy NP23 6GL
Adeiladu unedau cyflogaeth ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8, ffordd fynedfa newydd a chyffordd oddi ar Rhodfa Calch, draeniad, tirlunio, lleoedd parcio a gwaith cysylltiedig

Rhoddodd y Swyddog Cynllunio drosolwg manwl o'r cais a dywedodd fod y caniatâd cynllunio yn ceisio caniatâd i adeiladu 5 adeilad ffrâm porth dur, ffordd fynedfa newydd gyda chyffordd oddi ar Rhodfa Calch, ardaloedd cysylltiedig ar gyfer parcio ceir a seilwaith ategol ar dir ar ben deheuol Rhodfa Calch, Glynebwy. Byddai'r adeiladau yn cael eu his-rannu i roi 10 uned gyflogaeth gydag arwynebedd llawr cyfun o 4,065 metr sgwâr ar gyfer defnyddiau B1, B2 neu B8 a nododd y Swyddog Cynllunio gyfanswm maint a nifer yr unedau o fewn pob adeilad fel y'u manylir yn yr adroddiad.

Rhoddodd y Swyddog Cynllunio esboniad manwl o'r safle fel yr amlinellir yn y cynlluniau gosodiad a nodwyd yn y cais.

Rhoddwyd trosolwg cynhwysfawr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad mewnol ac allanol ynghyd ag asesiad cynllunio ynghylch y dilynol:

- Egwyddor y datblygiad
- Gosodiad, maint ac ymddangosiad
- Dyluniad cynaliadwy
- Amwynderau
- Priffyrdd a pharcio
- Ecoleg
- Tirlunio

- Llifogydd
- Draeniad
- Sefydlogrwydd y tir a halogiad

I gloi, dywedodd y Swyddog Cynllunio er nad yw’r dosbarthiadau defnydd a gynigir yn cydymffurfio’n llwyr gyda darpariaethau’r Cynllun Datblygu Lleol, byddai cyflenwi cyfuniad o ddefnyddiau cyflogaeth B1 a B2 a darparu cyfran fach o ddefnydd storfa a dosbarthu B8 yn gwneud cyfraniad sylweddol i gyflawni amcanion strategol y Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud ag adfywio a chyflogaeth.

Ystyriwyd y byddai’r defnyddiau a gynigir yn gydnaws gyda defnydd tir cyfagos yn yr ardal os y cyfyngir y B2 a B8 i lwyfan datblygu deheuol, is safle’r cais. Er yn fwy o ran ffurf ac yn uwch na’r cynnig a gymeradwywyd, ystyrid fod yr ymgeisydd wedi dynodi marchnad ar gyfer yr unedau a byddai’r maint, dyluniad a deunyddiau allanol hefyd yn gydnaws gyda chymeriad ac ymddangosiad yr ardal o amgylch, ac na fyddai’n cael effaith annerbyniol ar amwynder adeiladau cyfagos. O ran materion priffyrdd a pharcio, teimlai’r Swyddog Cynllunio fod y gyffordd mynedfa newydd yn Rhodfa Calch yn dderbyniol mewn egwyddor a bod maint y ddarpariaeth parcio yn ddigon i ddiwallu anghenion y datblygiad cyflogaeth arfaethedig. Daethpwyd felly i’r casgliad, o bwyso a mesur popeth, fod y datblygiad cyflogaeth a gynigir yn fras yn cydymffurfio gyda’r Cynlluniau Datblygu Lleol a bod y gwrthdaro o fewn dyraniad defnydd tir y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei wrthbwyso gan fuddion adfywio ac economaidd y cynnig. Felly cyfeiriodd y Swyddog Cynllunio yr Aelodau at argymhelliad y swyddog ar gyfer cymeradwyaeth.

Anerchodd Mr. J. Hurley, yr Asiant Cynllunio, y Pwyllgor ar wahoddiad y Pwyllgor.

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd Mr. Hurley iddo gael ei benodi gan yr Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo, sef yr Ymgeisydd ar gyfer y cais. Dywedodd Mr. Hurley y cafodd y cais cynllunio ei gyflwyno ychydig cyn y Nadolig a dymunai ddiolch i'r Tîm Cynllunio am y modd cyflym a phroffesiynol y cafodd y cais ei drin a'i ystyried gan y Pwyllgor.<br><br>Ychwanegodd Mr. Hurley y cafwyd trafodaethau manwl gyda'r Tîm Cynllunio yng nghyswllt defnydd yr unedau cyflogaeth. Cyflwynwyd y cais ar y sail y byddai'r unedau yn rhai B1, B2 a B8 fel y dywedodd y Swyddog Cynllunio. Gwerthfawrogai Mr. Hurley fod Cynllun Meistr y Gweithfeydd a pholisïau'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol yn canolbwyntio ar unedau B1; fodd bynnag, yn dilyn cais gan y Tîm Cynllunio, cyflwynwyd cais i gefnogi defnydd mwy hyblyg i ddenu tenantiaid. Teimlid y byddai defnyddiau B1, B2 a B8 ar draws y cynllun yn rhoi'r hyblygrwydd hwnnw ac ateb y galw presennol yn y farchnad.<br><br>Cyfeiriodd Mr. Hurley at yr amodau a gynhwysir yn y cais ac roedd yn ddiolchgar y cawsant eu cytuno gyda'r Tîm Cynllunio.<br><br>Ychwanegwyd fod gan Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo hanes da o lwyddiant mewn cynlluniau tebyg ar draws Prydain oedd wedi sicrhau swyddi a denu buddsoddiad. Dywedodd Mr. Hurley eto y byddai caniatáu defnyddiau B8 ar unedau ym Mloc A-C yn ddefnyddiol i osod yr unedau hyn.<br><br>I gloi, dywedodd Mr. Hurley pe rhoddid caniatâd cynllunio y byddai angen trafodaethau pellach gyda'r Tîm Cynllunio a'r Adran Stadau yng nghyswllt unedau A-C a'r dosbarthiadau defnydd ar yr unedau hyn fel y saif ar hyn o bryd yn edrych o bosibl ar B8 i sicrhau fod y cynllun yn parhau'n hyfyw.<br><br>Diolchodd Mr. Hurley i'r Pwyllgor a gobeithiai y byddai argymhelliad y swyddog yn cael ei gefnogi ar gyfer y cais. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd y Swyddog Cynllunio bryderon yr Ymgeisydd yng nghyswllt y penderfyniad i gyfyngu adeiladau A-C i ddefnydd B1 yn unig. Dywedodd y Swyddog Cynllunio fod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Ategol yn dyrannu'r safle hwn yn benodol ar gyfer defnyddiau B1 ac y byddai unrhyw ddefnyddiau pellach yn wahanol i'r Cynllun. Gwnaed hyn yn glir ar hyd y broses a rhoddwyd mwy o hyblygrwydd i'r safle deheuol. Dywedodd y Swyddog Cynllunio bod angen yr amodau fel arall gallai'r holl safle ddod yn un B8 a fyddai'n hollol groes i bolisi'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Prif Gynllun ar gyfer safle. Roedd yn bwysig cadw unedau A-C mewn defnydd gweithredol ac economaidd ysgogol yn ogystal â diogelu buddsoddiad ar gyfer y Fwrdeistref. Roedd hefyd yn bwysig cadw cefnogaeth ar gyfer busnesau cychwyn lan a symud ymlaen i barhau'r safle fel safle gweithredol. Heb amod 2, teimlai'r Swyddog Cynllunio y gallai'r safle fod yn un B8 yn llwyr ac y byddai'n hollol groes i'r Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r cais a theimlai y byddid yn croesawu unedau cyflogaeth ym Mlaenau Gwent.<br><br>Croesawodd Aelod arall y datblygiad, fodd bynnag cododd bryderon yng nghyswllt y defnyddiau B2 yn nhermau llesiant a'r effaith weledol ar y cleifion yn yr ysbyty. Felly teimlai'r Aelod ei bod yn hollbwysig y caiff y datblygiad ei fonitro i sicrhau nad yw unedau diolwg yn difetha'r ardal.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD **CYMERADWYO** caniatâd cynllunio. | |

| No. 5 | **<u>CAIS: C/2021/0253 PREMIER CLUB, STRYD WILLIAM, CWM, GLYNEBWY</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Cynllunio.<br><br>Rhoddodd y Rheolwr Tim Datblygu Rheoli drosolwg o'r adroddiad ac atgoffodd Aelodau y cafodd y cais ei ystyried yn y cyfarfod diwethaf. Roedd y Pwyllgor wedi penderfynu yn groes i argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais a chyfeiriodd y Rheolwr Tîm yr Aelodau at yr argymhelliad a'r amodau i'w gosod ar y datblygiad.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chynnwys yr amodau dilynol ar y caniatâd cynllunio a gyhoeddir ar gyfer y datblygiad:-<br><br>1. Bod y datblygiad a gymeradwyir yma yn cael ei gyflawni gan gydymffurfio'n llawn gyda'r cynlluniau a'r manylion dilynol:<br>• Cynllun lleoliad y safle (graddfa 1:1250) a dderbyniwyd 5 Awst 2021;<br>• Drg cyf 21/AP/105 – Drychiadau arfaethedig a dderbyniwyd ar 5 Awst 2021;<br>• Drg cyf 21/AP-104 – Gosodiadau cynllun llawr arfaethedig a dderbyniwyd ar 5 Awst 2021;<br>• Drg cyf 21/AP/103 – Cynllun lleoliad safle arfaethedig (graddfa 1:125) derbyniwyd 5 Awst 2021;<br>• Drg cyf 21/AP/106 – Llocau sbwriel arfaethedig a derbyniwyd 22 Mehefin 2021.<br><br>Os na fanylir fel arall gan amodau 2 i 7 uchod.<br><br>**<u>RHESWM:</u>** I ddiffinio cwmpas y caniatâd hwn yn glir.<br><br>2. Ni fydd unrhyw ddatblygu yn digwydd cyn cyflwyno manylion y mesurau risg llifogydd i'w cynnwys o fewn yr anheddau a gymeradwyir drwy hyn ac iddynt gael eu cymeradwyo mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Caiff mesurau o'r fath y gellir eu cymeradwyo eu gweithredu yn llawn cyn i'r anheddau gael eu defnyddio. | |
|---|---|---|

**RHESWM:** Sicrhau y caiff y datblygiad ei gynnal mewn modd diogel a boddhaol a lliniaru risg llifogydd i ddefnyddwyr yn y dyfodol.

3. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd (yn cynnwys dymchwel, gwaith daear neu glirio tyfiant) cyn cyflwyno Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (Bioamrywiaeth) ac iddo gael ei gymeradwyo mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (Bioamrywiaeth) yn cynnwys manylion y dilynol:-

- asesiad risg o unrhyw weithgareddau adeiladu a allai fod yn niweidiol;
- dynodi "mannau diogelu bioamrywiaeth";
- mesurau ymarferol (yn fesurau ffisegol a hefyd yn arferion gweithio sensitif) i osgoi neu wrthod effeithiau yn ystod adeiladu;
- lleoliad ac amseriad gwaith sensitif i osgoi niwed i nodweddion bioamrywiaeth;
- yr amserau yn ystod adeiladu pan fod angen i ecolegydd arbenigol fod yn bresennol ar y safle i oruchwyliio gwaith;
- unigolion cyfrifol a llinellau cyfathrebu;
- rôl a chyfrifoldebau Clerc Gwaith Ecolegol ar y safle neu berson cymwys tebyg; a
- defnyddio ffensys gwarchodol, rhwystrau gwahardd a rhybuddion.

Caiff y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu eu weithredu'n llym a chydymffurfio ag ef drwy gydol y cyfnod adeiladu gan gymeradwyo'n llawn gyda'r manylion a gymeradwywyd.

**RHESWM:** Gwarchod buddiannau amrywiaeth a sicrhau y cymerir mesurau addas i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth.

4. Serch y manylion a amlinellir yn yr Arolwg Coed a gyflwynwyd gyda'r cais, ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes y cyflwynwyd arolwg coed diwygiedig sy'n cydymffurfio gyda BS5857 ac iddo gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'n rhaid i'r arolwg diwygiedig roi ystyriaeth ddyladwy i'r holl goed yng nghyffiniau'r safle, yn cynnwys y rhai ar y terfyn gogledd-orllewinol y mae gorchymyn Cadwraeth Coed arnynt. Bydd yn cynnwys y dilynol, ond ni fydd wedi ei gyfyngu i hyn:

- manylion llawn y dulliau tyllu i'w defnyddio o fewn rhannau diogelu gwreiddiau coed;
- manylion deunyddiau wyneb i'w defnyddio ar gyfer y lon arfaethedig;
- manylion llawn y mesurau i ddiogelu coed a gadwyd i fod yn weithredol drwy gydol y datblygiad.

**RHESWM:** Sicrhau diogelu digonol ar nodweddion tirlun y safle a'r ardal o amgylch a sicrhau nad oes niwed yn digwydd i goed a ddiogelwyd fel canlyniad i'r datblygiad.

5. Serch y manylion a ddangosir yn y cynlluniau a gymeradwywyd, ni chaiff dim o'r anheddau a gymeradwywyd drwy hyn eu defnyddio nes bod y fynedfa, y lon a'r ardaloedd parcio wedi ei hadeiladu, wedi cael wyneb a'u draenio yn unol gyda manylion sy'n rhaid eu cyflwyno a'u cymeradwyo mewn ysgrifen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn bod gwaith yn dechrau ar y safle. Caiff yr ardaloedd a ddarperir eu cadw ar gyfer y dibenion a ddynodwyd iddynt bob amser.

**RHESWM:** Sicrhau y caiff anghenon parcio y datblygiad eu diwallu'n ddigonol ac i ddiogelu diddordebau priffyrdd.

6. Ni chaiff dim o'r anheddau a gymeradwywyd drwy hyn eu defnyddio nes y cafodd yr holl orffenion allanol a ddangosir ar y cynlluniau a gymeradwywyd eu gweithredu yn llawn.

**RHESWM:** Diogelu diddordebau amwynder gweledol.

| | | |
|---|---|---|
| | 7. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn diwedd ar y safle y tu allan i'r oriau dilynol – 8.00am i 17:00pm dydd Llun i ddydd Gwener, 8.00am i 1.00pm ar ddyddiau Sadwrn. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd ar ddyddiau Sul Gwyliau Banc.<br><br>**RHESWM:** Diogelu amwynder preswyl defnyddwyr adeiladau cyfagos.<br><br>8. Terfyn amser safonol (caniatâd cynllunio llawn). | |
| **No. 6** | **APELIADAU, YMGYNGHORIADAU A DIWEDDARIAD DNS MAWRTH 2022**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 7** | **DIWEDDARIAD A PHENDERFYNIAD APÊL; CYNLLUNIO: TIR GER FFERMDY COED CAE, RASA, GLYNEBWY**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Cynllunio.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi gwybodaeth penderfyniad yr apêl ar gyfer Cais Cynllunio C/2021/0182 | |
| **No. 8** | **RHESTR CEISIADAU A BENDERFYNWYD DAN BWERAU DIRPRWYEDIG RHWNG 24 IONAWR 2022 A 16 CHWEFROR 2022**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Cymorth Busnes.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 9** | **<u>ACHOSION GORFODAETH A GAFODD EU CAU RHWNG 10 RHAGFYR 2021 A 10 CHWEFROR 2022</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Rheoli Datblygu.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn cyfeirio at unigolyn neilltuol a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |